GWYBODAETH I RIENI/GOFALWYR

# Canllawiau ar ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

**Mae'r Awdurdod Lleol yn annog gweithio partneriaeth rhwng rhieni/gofalwyr, dysgwyr, ysgolion, colegau a gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid eraill.**

Nod y llyfryn hwn yw rhoi gwybodaeth am y ddeddfwriaeth newydd ar Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a sut y bydd hyn yn newid y ffordd mae ysgolion yn gweithio gyda chi i gefnogi eich plentyn.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council

**Diolch i Holos Education**

Cyhoeddwyd y llyfryn hwn gan y pump awdurdod lleol sy'n cydweithio yn Rhanbarth y Canol De. Mae'r Canol De wedi cytuno i rannu'r ddogfen hon gyda theuluoedd ym Mlaenau Gwent.

Er fod yr wybodaeth yn gywir adeg ei chyhoeddi, mae'r awdurdod lleol yn cadw'r hawl i wneud unrhyw addasiadau lle mae angen i'w galluogi i gydymffurfio gyda newidiadau mewn polisi a/neu ddeddfwriaeth.

**I gael mwy o wybodaeth ewch i wefan eich cyngor lleol:**

> Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

> www. blaenau-gwent.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

## 1. Cyflwyniad

> Diben y llyfryn gwybodaeth

## 2. Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

> Diffiniad o ADY – Anghenion Dysgu Ychwanegol
> Effaith Deddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)
> Yr hyn y gall teulu ei ddisgwyl gan eu hysgol a'r Awdurdod Lleol

## 3. Cysylltiadau pwysig

> **Rolau allweddol y rhai sy'n ymwneud â chefnogaeth ADY:**
> Cydlynydd ADY
> Swyddog Arweiniol ADY Blynyddoedd Cynnar
> Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg
> Adnodd – Siart cysylltiadau allweddol

## 4. Cynllunio ac Adolygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol

> **Ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn:**
> Llwybr Rhiant
> Cynllun Datblygu Unigol ac Adolygiadau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn
> Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig
> Adnodd - Siart cysylltiadau allweddol

## 5. Anghytundeb a Datrysiad

> Camau y gallwch eu cymryd i ddatrys anghytundeb

## 6. Esbonio'r Eirfa

> Rhestr o eiriau ac ymadroddion deddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol

## 7. Adnoddau: Gwybodaeth am gefnogaeth

> **Manylion cyswllt:**
> Plant yng Nghymru
> Fforwm Cymru Gyfan
> Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd
> SNAP Cymru

## 1. Cyflwyniad i'r llyfryn gwybodaeth

**Efallai y dynodwyd eisoes fod gan eich plentyn anghenion addysgol arbennig. Gall fod yn derbyn cymorth ychwanegol yn yr ysgol i'w helpu gyda dysgu, neu gallai fod â datganiad o anghenion addysgol arbennig.**

Mae'r dull o gefnogi plant sy'n cael anawsterau gyda dysgu yn newid. Mae Llywodraeth Cymru wedi pasio deddfwriaeth newydd sef **Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**, fydd yn disodli'r holl ddeddfwriaeth a chanllawiau am anghenion addysgol arbennig.

Diben y llyfryn hwn yw esbonio'r ddeddfwriaeth newydd a sut y bydd hyn yn newid y ffordd y bydd ysgolion yn gweithio gyda chi i ddynodi a chefnogi anghenion eich plentyn.

## 2. Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**Fel rhan o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r term 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' (ADY) yn lle 'Anghenion Addysgol Arbennig'.**

> Fodd bynnag, bydd y diffiniad o ADY yn debyg iawn. Bydd yn cynnwys y rhai sydd â:
> sylweddol fwy o anhawster mewn dysgu na mwyafrif plant eraill o'r un oed sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol; neu
> sydd ag anabledd ar gyfer dibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n atal neu llesteirio'r plentyn rhag defnyddio cyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir fel arfer ar gyfer eraill o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector Addysg Bellach sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno dyletswydd glir i awdurdodau lleol i'ch cefnogi fel rhieni/gofalwyr a'ch plentyn i gyfrannu at y cynllunio ar gyfer ADY.

***Mae gwybodaeth a thryloywder yn allweddol i rymuso unigolion, gan roi mwy o eglurdeb iddynt am beth i'w ddisgwyl, sut i gymryd rhan a sut i gael mynediad i help.***

Mae hyn yn cynnwys:
> Rhoi ystyriaeth i farn a theimladau'r plentyn, y person ifanc a'r rhieni/gofalwyr.
> Hyrwyddo cyfranogiad mewn gwneud penderfyniadau.
> Rhoi gwybodaeth a chefnogaeth.

## Effaith Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

**Fel rhiant/gofalwr gallech fod yn bryderus fod gan eich plentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol. Sut y dylai Deddf ADY a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) wneud gwahaniaeth i chi a’ch plentyn?**

**Gwella cydweithio ...**
Rhyngoch chi fel rhiant/gofalwr, eich plentyn a’r gwasanaethau hynny sy’n ymwneud â chynllunio a chyflenwi cefnogaeth ADY.

**Cynllun unedig ...**
Mae Cynlluniau Datblygu Unigol yn gynlluniau unedig newydd sy’n sicrhau fod cynllun dysgu eich plentyn yn ei (d)dilyn drwy newidiadau ysgolion.

**Gwell cydweithio, cynllun unedig, cyfranogiad a chael llais a system symlach a llai gwrthwynebus.**

**System symlach a llai gwrthwynebus ...**
Os nad yw plentyn, ei rieni/rhieni, gofalwyr neu berson ifanc yn hapus gyda’r penderfyniadau a wnaeth ysgol am eu ADY neu eu Cynllun Datblygu Unigol, gallant ofyn i’r Awdurdod Lleol adolygu neu ailystyried y penderfyniad.


**Cynyddu cyfranogiad a chael llais ...**
Caiff plant, eu rhieni/gofalwyr a phobl ifanc eu cefnogi i ddeall a chymryd rhan yn y penderfyniadau sy’n effeithio arnynt, cael y sicrwydd priodol a chael cynnig cyfleoedd i godi pryderon a chael ateb i’w cwestiynau.

http://llyw.cymru/anghenion-dysgu-ychwaneg-ol-ady-dalenffeithiau-plant-pobl-ifanc-rhieni-a-gofalwyr

### Yr hyn y gall teulu ei ddisgwyl gan eu hysgol a’r Awdurdod Lleol

Cyfarfodydd croesawgar a chefnogol ar amser a lle sy’n cydfynd â’ch anghenion

Eich llais yn cael ei glywed a’ch gwybodaeth yn cael ei chynnwys ar bob cam.



Cymorth i’ch helpu gael mynediad i’r holl wybodaeth rydych ei hangen.

Cefnogaeth gan rywun annibynnol os nad ydych yn hapus gydag unrhyw benderfyniadau ar y ffordd y cafodd rhywbeth ei wneud

Gwybodaeth hygyrch a chyfredol gan eich ysgol a/neu Awdurdod Lleol

## 3. Cysylltiadau Pwysig

**Mae rhieni/gofalwyr wedi awgrymu y byddai rhestr o'r bobl allweddol sy'n ymwneud â'r gefnogaeth gydag AnghEnion Dysgu Unigol (ADY) eu plentyn yn ddefnyddiol. Rydym wedi rhoi ffurflen i chi gofnodi'r wybodaeth allweddol sy'n berthnasol i'ch plentyn neu berson ifanc.**

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg wedi dynodi'r rolau allweddol i gefnogi cydlynu a gweithredu'r system ADY. Isod mae rhestr fer o'r rolau allweddol a'u cyfrifoldebau.

Pwrpas y llyfryn hwn yw egluro'r ddeddfwriaeth newydd, a sut y bydd hyn yn newid y ffordd y bydd ysgolion yn gweithio gyda chi i nodi a chefnogi anghenion eich plentyn.

## Rolau allweddol y rhai sy'n ymwneud â chefnogaeth ADY

### Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol:

Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r rôl hon yn debyg i rôl y Cydlynydd Anghenion Arbennig. Y Cydlynydd ADY yw'r cydlynydd arweiniol ar gyfer disgyblion gyda ADY.

Maent yn gweithio mewn:
> Ysgolion a gynhelir
> Meithrinfeydd a gynhelir
> Colegau
> Unedau cyfeirio disgyblion

**Mae'r Cydlynydd ADY yn gwneud yn siwr y caiff anghenion pob disgybl gyda ADY o fewn y sefydliad addysg eu diwallu.**

### Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol Blynyddoedd Cynnar:

Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol

Rôl y Swyddog Arweiniol ADY Blynyddoedd Cynnar yw gweithio gyda rhieni, lleoliadau blynyddoedd cynnar, gweithwyr iechyd proffesiynol ac eraill a all fod yn gweithio gyda phlant dan oedran ysgol gorfodol i godi ymwybyddiaeth o'r system ADY ac i hyrwyddo ymyriad cynnar.

> Hyrwyddo ymyriad cynnar ar gyfer ADY
> Ffocws ar y blynyddoedd cynnar

**Mae'r Swyddog Arweiniol yma yn gyfrifol am gydlynu rôl yr Awdurdod Lleol yng nghyswllt plant dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir. Mae hyn yn berthnasol i bob plentyn cyn iddynt fod o oedran ysgol statudol.**

### Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg:

Clinical Lead Officer

Mae'r gyfraith newydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob bwrdd iechyd fod â swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg fydd yn:

> Cydlynu dyletswyddau'r Bwrdd Iechyd wrth weithredu'r Ddeddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg.
> Cyfrannu at Gynlluniau Dysgu Ychwanegol a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol.
> Monitro a mesur cydymffurfiaeth.

**Bydd y Swyddog Arweiniol yma yn hyrwyddo gweithio aml-asiantaeth effeithiol rhwng gwasanaethau iechyd, gwasanaethau iechyd cyhoeddus, cynlluniau lleol, gwasanaethau eiriolaeth, ysgolion a sefydliadau addysg bellach.**

| Gellir defnyddio'r ffurflen hon i gofnodi unrhyw wybodaeth cyswllt allweddol ar gyfer y rhai sy'n gweitho gyda chi a'ch plentyn | |
|---|---|
| **Athro/Athrawes Dosbarth Gweithiwr Allweddol** | Enw:<br>Ffôn:<br>E-bost:<br>Sylwadau: |
| **Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol** | Enw:<br>Ffôn:<br>E-bost:<br>Sylwadau: |
| **Pennaeth Ysgol** | Enw:<br>Ffôn:<br>E-bost:<br>Sylwadau: |
| **Tîm ADY yr Awdurdod Lleol** (Cyngor) | Enw:<br>Ffôn:<br>E-bost:<br>Sylwadau: |
| **Seicolegydd Addysgol** | Enw:<br>Ffôn:<br>E-bost:<br>Sylwadau: |
| **Gweithiwr Iechyd Proffesiynol** | Enw:<br>Ffôn:<br>E-bost:<br>Sylwadau: |
| **Arall** Perthnasol i'ch plentyn | Enw:<br>Ffôn:<br>E-bost:<br>Sylwadau: |
| **Arall** Perthnasol i'ch plentyn | Enw:<br>Ffôn:<br>E-bost:<br>Sylwadau: |
| **Arall** Perthnasol i'ch plentyn | Enw:<br>Ffôn:<br>E-bost:<br>Sylwadau: |

## 4. Cynllunio ac adolygiadau ADY

**Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn**

Mae defnyddio dulliau meddwl sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn helpu casglu barn pawb. Maent yn neilltuol o ddefnyddiol wrth feddwl a chynllunio ar gyfer dyfodol eich plentyn.

Bydd pob ysgol a gynhelir a lleoliad blynyddoedd cynnar yn eich Awdurdod Lleol yn defnyddio ymarfer sy'n canobwyntio ar yr unigolyn i gymryd rhan lawn wrth rannu eich sylwadau. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda chi a'ch plentyn i lenwi Proffil Amdanaf Fi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi creu adnoddau ar gyfer teuluoedd, plant a phobl ifanc ar yr hyn i'w ddisgwyl mewn adolygiadau blynyddol a chyfar-fodydd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Defnyddiwch y ddolen isod i gael mynediad i'r adnodd.

**Adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion: canllawiau i deuluoedd | LLYW.CYMRU**

**Ffocws y cyfarfod canolbwyntio ar yr unigolyn yw darganfod:**


- Beth sy'n bwysig i'ch plentyn nawr (tu mewn a thu allan i'r amgylchedd addysgol)?
- Beth fydd yn bwysig yn y dyfodol (beth fydd ei angen i ateb anghenion dysgu y dyfodol)?
- Y ffordd orau i gefnogi eich plentyn (beth sydd angen i chi ei wybod neu ei wneud, e.e. cwblhau eu cynllun dysgu) What's working and not working (from the child's/families' and school's point of views)
- Beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio (o safbwynt y plentyn/teulu a'r ysgol)
- Unrhyw gwestiynau i'w hateb – yn galluogi pawb sy'n gysylltiedig i ofyn cwestiynau perthnasol e.e. a oes ganddynt ADY fel y'i diffinnir yn y Cod? A yw eich plentyn angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol? A oes angen Cynllun Datblygu Unigol neu a yw'n dal i fod ei angen?

Mae fideo a chanllawiau pellach ar adolygiadau sy'n canolbwyntio ar y person ar gael yn **https://youtube/bkwBSF0nxiY**

Gyda gweithredu Deddf Anghenion Dysgu a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), bydd y rhai sy'n gweitho gyda phlant a phobl ifanc yn defnyddio Proffil Amdanaf Fi i gasglu gwybodaeth berthnasol. Mae'r Proffil Amdanaf Fi yn casglu'r holl wybodaeth bwysig am y plentyn neu berson ifanc ar un ddalen o bapur dan dri phennawd syml:

1. **Beth mae pobl yn ei hoffi a'i edmygu amdanaf i**
2. **Beth sy'n bwysig i fi**
3. **Beth sy'n bwysig i gefnogi fy nysgu**

## Beth sy'n digwydd



## Cynllun Datblygu Unigol ac Adolygiadau sy’n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

**Mae Cynllun Datblygu Unigol yn ddogfen gyfreithiol fydd yn disodli datganiadau, Cynlluniau Addysg Unigol a Chynlluniau Cefnogi Dysgu.**

Mae ffocws Cynllun Datblygu Unigol ar yr hyn mae eich plentyn ei angen i gyflawni ei botensial addysgol. Caiff yr wybodaeth a nodir yn y Cynllun Datblygu Unigol ei defnyddio i lywio’r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwangol. Bydd y math o gefnogaeth a amlinellir a’r manylion o fewn y cynllun yn dibynnu ar faint ADY eich plentyn.

## Pwy fydd angen Cynllun Datbygu Unigol?

> Unrhyw blentyn neu berson ifanc 0-16 oed sy’n ateb y diffiniad o ADY a roddir yn ‘Rhan Dau’ y daflen hon (tudalen 4) sydd angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol
> Unrhyw berson ifanc 16-25 oed sy’n ateb y diffiniad o ADY, sydd angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol ac yn mynychu coleg.

## Beth fydd yn digwydd os yw fy mhlentyn angen Cynllun Datblygu Unigol?

Gall rhiant/gofalwr, gweithiwr proffesiynol neu’r dysgwr ei hun wneud cais am Gynllun Datblygu Unigol.

> Ar gyfer plant 0-3 oed, caiff y cais ei wneud i’r Awdurdod Lleol.
> Ar gyfer plant dan oedran ysgol, caiff y cais ei wneud i’r ysgol yn gyntaf.
> Ar gyfer myfyrwyr coleg, caiff y cais ei wneud i’r coleg – os na cheisrr lleoliad coleg arbenigol, ac os felly gwneir y cais i’r Awdurdod Lleol.

Mae’n debyg mai’r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol fydd eich prif bwynt cyswllt, os nad yw eich plentyn wedi dechrau yn yr ysgol neu feithrinfa. Os felly, mae’n debyg mai eich gweithiwr gofal proffesiynol, Swyddog Arweiniol Anghenon Dysgu Ychwanegol Blynyddoedd Cynnar neu arbenigydd arall yn y blynyddoedd cynnar o’ch Awdurdod Lleol fydd eich prif bwynt cyswllt.

Os nad yw’r ysgol yn cytuno fod gan eich plentyn ADY mae’n rhaid iddynt adael i chi wybod hyn ac esbonio pam. Os ydych yn anghytuno gyda’r penderfyniad, trafodwch hyn gyda’r ysgol yn gyntaf. Os ydych yn dal i fethu cytuno, gallwch ofyn i’r Awdurdod Lleol adolygu’r penderfyniad (gweler tudalen 14 am fwy o wybodaeth am beth i’w wneud os ydych yn anghytuno).

## Sut olwg fydd ar Gynllun Datblygu Unigol?

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu templed gorfodol ar gyfer y Cynllun Datblygu Unigol.

Dywedodd Llywodraeth Cymru y gall awdurdodau lleol newid arddull a gweddlun y ddogfen, ond bod yn rhaid i’r holl benawdau gael eu defnyddio, yn y drefn yr ymddangosant ar y templed.

# Pwy fydd yn gyfrifol am greu ac adolygu'r Cynllun Datblygu Unigol?

**Geni i 5 oed**
Heb fod mewn ysgol orfodol → **Awdurdod Lleol**

**Plant 3 - 16 oed**
Mynychu ysgol brif ffrwd → **Ysgol ac Awdurdod Lleol**

**Pobl ifanc 16+ oed**
Mynychu coleg prif ffrwd → **Y coleg ac Awdurdod Lleol**

Caiff Cynllun Datblygu Blynyddol ei adolygu'n flynyddol (o fewn 12 mis) yn dilyn model cyfathrebu a chyfranogiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Os ydych chi neu'ch plentyn yn dymuno, gallwch wneud cais am adolygiad cynharach. Hefyd, gall ysgol neu goleg eich plentyn neu'r Awdurdod Lleol benderfynu adolygu Cynllun Datblygu Lleol yn gynharach. Os felly, byddant yn gadael i chi a'ch plentyn wybod a chytuno ble a phryd y cynhelir yr adolygiad.

## Beth yw adolygiad Cynllun Datblygu Unigol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn?

Mae adolygiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ffordd o benderfynu pa gefnogaeth sydd ei hangen ar gyfer plentyn neu berson ifanc gyda ADY neu benderfynu ar unrhyw newidiadau sydd angen eu gwneud i'w cefnogaeth neu ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

Mae'n bwysig fod plant a phobl ifanc yn cael y bobl gywir i gymryd rhan yn eu cyfarfod adolygu i'w helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae hyn ar gyfer gwneud yn siwr fod ganddynt y pethau sy'n bwysig iddynt, yn ogystal â'r gefnogaeth gywir i helpu cyflawni eu huchelgais.

## Pwy fydd yno?

Gall y plentyn neu berson ifanc ddewis pwy hoffent fod yno ond bydd hefyd rai pobl sy'n gorfod bod yno.

Weithiau gall llawer o bobl fod yn cymryd rhan yn yr adolygiad, tebyg i weithwyr proffesiynol iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg, yn ogystal â theulu a ffrindiau. I eraill, efallai mai dim ond chi, eich plentyn a rhywun o'r ysgol neu goleg fydd yno.

## Ble a phryd fydd hynny?


Mae'n debyg y caiff ei gynnal yn y lleoliad blynyddoedd cynnar, yr ysgol neu'r coleg. Dylai'r amser a'r dyddiad fod yn gyfleus i bawb sy'n mynychu. Bydd o leiaf un cyfarfod adolygu o'r math y flwyddyn; bydd yr ysgol neu goleg yn gadael i chi wybod pryd y cânt eu cynnal.

## Beth y dylech feddwl amdano cyn y cyfarfod?

Mae Llywodraeth Cymru wedi creu **Adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion ar gyfer teuluoedd** i'ch helpu i feddwl am y pethau y gallech fod eisiau eu dweud. Gallwch ddefnyddio'r gweithgareddau ac adnoddau yn y llyfryn i ysgrifennu pethau yr ydych eisiau cofio eu dweud ar y dydd.

Mae'n bwysig y caiff barn eich plentyn ei chlywed yn y cyfarfod. Yn yr achos hwn, mae'n hanfodol eich bod yn rhoi amser i feddwl am y cwestiynau, cofnodi eich meddyliau yn y lleoedd a roddwyd ac anfon y llyfryn at eich ysgol neu goleg erbyn y dyddid y gofynnwyd amdano. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y caiff eich barn ei chlywed yn y cyfarfod.

**https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/person-centred-reviews-forfamilies.pdf**




Mae hefyd lyfryn adnoddau ar gyfer dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn adolygiad canolbwyntio ar yr unigolyn i gynllunio ar gyfer eu cyfarfod.

Rhoddir canllawiau ar beth a sut y gall y person ifanc fod eisiau cyfrannu at yr adolygiad a'r dulliau a ddewisant i gynrychioli eu barn.

Bydd yr adolygiadau hyn â ffocws ar y plentyn ac felly yn rhoi cyfle i'ch plentyn i ymchwilio sut y gall helpu ei hun.

**Rhai syniadau ar gyfer penderfynu sut yr hoffent ddweud wrth bawb yr hyn y buont yn ei wneud ers yr adolygiad diwethaf:**

> Siarad gyda nhw
> Creu cyflwyniad PowerPoint a all siarad drostynt neu y gallant ei ddefnyddio i gefnogi siarad am eu barn
> Creu cyflwyniad PowerPoint a siarad gyda nhw am y cyflwyniad
> Creu llyfr lloffion
> Defnyddio llechen neu liniadur, e.e. iBook
> Argraffu ffotograffau ar gardiau i'w rhannu yn ystod y cyfarfod
> Ysgrifennu am yr hyn y buont yn ei wneud cyn yr adolygiad
> Ysgrifennu beth maent eisiau
> Defnyddio symbolau i esbonio beth maent eisiau a sut y teimlant
> Defnyddio dull arferol eich plentyn o gyfathrebu e.e. symbolau neu feddalwedd cynhyrchu lleferydd neu olwg llygad




**Mae mwy o adnoddau i gefnogi eich plentyn neu berson ifanc wrth gynllunio ar gyfer eu cyfarfod adolygu ar gael yn:** https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/adolygiadau-canolbwyntio-ar-unigolion-ar-gyfer-teuluoedd.pdf

## Beth fydd yn digwydd yn y cyfarfod?

Byddwch yn gweld fod awyrgylch hamddenol mewn adolygiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn wahanol iawn i gyfarfodydd traddodiadol eraill y gallech fod wedi bod ynddynt. Caiff popeth ei osod i fod mor anffurfiol a chysurus ag sydd modd.

**Gall y cyfarfod gynnwys rhai o'r elfennau dilynol:**

- Os oes llawer o bobl yn dod, gall fod bwrdd mawr, gallai fod posteri, darnau mawr o bapur wedi eu gosod ar y waliau neu fwrdd gwyn/sgrîn lle gallwch weld yr wybodaeth sy'n cael ei rhannu. Mae'r rhain ar gyfer helpu pawb sydd yno, yn eich cynnwys chi a'ch plentyn, i gofnodi'r hyn sy'n bwysig.
- Bydd pob adolygiad yn newid i ddiwallu anghenion eich plentyn, sydd yng nghanol y cyfarfod. Bydd gan un person, a elwir yn hwylusydd, y gwaith o wneud yn siwr y gall pawb ddweud eu barn a bod y cyfarfod yn llunio deilliannau a chamau gweithredu ar gyfer newid.
- Mae'n debyg y bydd yr hwylusydd yn rhywun o'r ysgol neu goleg a dylech wybod pwy yw cyn y cyfarfod.
- Mae'r cyfarfod yn dechrau gyda phawb yn cyflwyno eu hunain ac o bosibl yn rhannu rhywbeth y maent yn ei hoffi neu yn ei edmygu am eich plentyn.
- Bydd yr hwylusydd yn esbonio beth fydd yn digwydd yn y cyfarfod adolygu ac yna caiff pawb gyfle i ddweud eu barn a'u gwybodaeth am eich plentyn.
- Pan fydd pawb wedi gorffen rhoi eu sylwadau, byddwch i gyd yn meddwl am a siarad am yr hyn sydd angen iddo newid a pha ddeilliannau a thargedau y dymunwch eu gweld.
- Byddwch wedyn i gyd yn cytuno pa ddarpariaeth fydd ei hangen i gefnogi eich plentyn i'w helpu i wireddu ei uchelgais.
- Bydd pawb yn y cyfarfod yn cyfrannu at y dull datblygu Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn.

## Ar ddiwedd yr adolygiad

Erbyn diwedd yr adolygiad bydd yr hwylusydd yn ymdrechu i sicrhau y cytunir ar ffordd ymlaen ac ar y deilliannau a'r ddarpariaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Caiff Cynllun Datblygu Unigol ei lunio a'i anfon at bawb o fewn 5 diwrnod fel y gall pawb weld beth gaiff ei wneud i gefnogi eich plentyn i ddysgu, ac i gyflawni eu breuddwydion.

Bydd hyn yn 10 diwrnod os yw eich plentyn yn y blynyddoedd cynnar, yn derbyn gofal neu'n cael addysg heblaw yn yr ysgol.

## 5. Datrys Anghydfod

1. **Os credwch fod gan eich plentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**
   y cam cyntaf yw siarad gydag athro/athrawes eich plentyn neu'r Cydlynydd Angheion Dysgu Ychwanegol. Cawsant eu hyfforddi i roi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar ADY.

2. **Os yw eich ysgol yn cytuno gyda chi fod gan eich plentyn neu berson ifanc ADY**
   bydd yr ysgol yn gweithio gyda chi i greu Cynllun Datblygu Unigol. Cewch chi fel y rhiant eich gwahodd i gyfrannu at gynnwys y Cynllun hwn. Mae'n bwysig eich bod yn gwneud hynny gan mai chi sy'n adnabod y plentyn orau. Fel arfer caiff Cynllun Datblygu Unigol ei adolygu bob 12 mis neu'n gynharach os oes angen.

3. **Os nad yw'r ysgol yn cytuno fod gan eich plentyn ADY**
   neu os nad ydych yn hapus gyda Chynllun Datblygu Unigol eich plentyn, bydd angen i chi drafod hyn gyda'r ysgol i ddechrau. Os ydych yn dal yn anfodlon, yna gallwch ystyried siarad gyda'ch Awdurdod Lleol i gael mwy o gyngor. Os yw'r Awdurdod Lleol yn cytuno fod ADY gan eich plentyn, caiff Cynllun Datblygu Unigol ei baratoi neu ei ddiwygio.

4. **Fodd bynnag, os yw'r Awdurdod Lleol yn cytuno gyda'r ysgol a'ch bod yn dal yn anhapus**
   gallant eich cyfeirio tuag at wasanaethau eiriolaeth annibynnol sy'n cefnogi teuluoedd a phobl ifanc i wneud dewisiadau gwybodus am beth i'w wneud nesaf.

5. **Hawl i Apelio**
   Mae gan bob plentyn, eu rhieni/gofalwyr a phobl ifanc hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau i Dribiwnlys Addysg Cymru.

6. **Tribiwnlys Addysg Cymru**
   Eu gwaith yw clywed a phenderfynu apeliadau am blant gydag ADY. Gallwch chi y rhiant/gofalwr neu'r person ifanc ei hun wneud apêl. Mae Tribiwnlys Addysg Cymru yn annibynnol o'r llywodraeth, awdurdodau lleol,ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach. Mae ei benderfyniadau yn rhwymo'n gyfreithiol.

   Gall y Tribiwnlys hefyd wneud penderfyniadau am allu plentyn i ddeall materion yn gysylltiedig â'r system ADY, yn cynnwys beth mae'n ei olygu i ddod ag apêl. Gall y Tribiwnlys benodi cyfaill achos i gefnogi'r plentyn neu berson ifanc.

7. **"Unioni Pethau "**
   Os yw'r anghytundeb yn ymwneud â chyfraniad gwasanaeth iechyd GIG gellir codi hyn drwy Putting Things Right.



**Cyfaill achos** yw rhywun fydd yn cefnogi eich plentyn drwy'r broses tribiwnlys. Caiff plant a phobl ifanc wybodaeth i gael mynediad i wasanaethau eiriolaeth annibynnol.

## 6. Esbonio'r Eirfa

### A

**ADHD (Diffyg Sylw ac Anhwylder Gorfywiogrwydd):** Mae ADHD yn gyfres o fathau ymddygiad sy'n achosi problemau yn gysylltiedig gydag anawsterau gyda chwmpas sylw, yn cynnwys anesmwythdod a hyperweithgaredd.

**Adolygiad:** Adolygiad o Gynllun Datblygu Unigol y mae'n rhaid i awdurdod lleol ei gynnal o fewn 12 mis o greu Cynllun Datblygu Unigol ac wedyn yn flynyddol.

**Adroddiad Adolygu Blynyddol:** Adroddiad cynnydd ysgrifenedig a gaiff ei gwblhau gan yr ysgol neu awdurdod lleol ar gyfer cyfarfod adolygu blynyddol neu gyfarfod adolygu pontio.

**Addysg Bellach:** Darpariaeth ddysgu ôl-16 a all gynnwys hyfforddiant neu addysg alwedigaethol.

**ADY:** Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae gan blentyn anawsterau dysgu os yw'n ei chael yn sylweddol fwy anodd i ddysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oedran.

**ALP:** Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (y ddarpariaeth a ddisgrifir yng Nghynllun Datblygu Unigol y person).

**Aml-ddisgyblaeth:** Yn cynnwys gweithwyr proffesiynol o ystod o ddisgyblaethau (fel arfer Addysg, Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

**Anawsterau Dysgu:** Mae gan blentyn anawsterau dysgu os yw yn ei chael yn sylweddol fwy anodd i ddysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oedran.

**Anawsterau Dysgu Difrifol:** Mae gan ddisgyblion gydag anawsterau dysgu difrifol anhwylderau gwybyddol deallusol difrifol. Gallant hefyd fod ag anawsterau mewn symudedd a chydlynu, cyfathrebu a chanfyddiad a sgiliau hunan-helpu dysgu. Bydd disgyblion gydag anawsterau dysgu difrifol angen cefnogaeth ym mhob maes o'r cwricwlwm.

**Anawsterau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu:** Lle gall disgyblion ei chael yn anodd gyda iaith fynegiannol neu iaith oddefol a/neu anawster-au prosesu.

**Anghenion Addysgol Arbennig (AAA):** Dywedir fod gan blentyn AAA os oes ganddo/ganddi anawsterau dysgu sydd angen darpariaeth addysgol arbennig. Cafodd hyn ei newid i Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ers Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 Senedd Cymru.

**Apêl:** Apêl yw pan ofynnwch i benderfyniad gael newid.

**ASD (Autistic Spectrum Disorder):** Y term a ddefnyddir ar gyfer ystod o anhwylderau yn effeithio ar ddatblygu rhyngweithio cymdeithasol, cyfathrebu a dychymyg.

**Asesiad Adran 140:** Asesiad o anghenion addysgol a hyfforddi myfyrwyr a'r ddarpariaeth sydd eu hangen i'w cyflawni. Mae gan swyddogion Gyrfa Cymru ofyniad statudol i gynnal y rhain, a ddirprwywyd iddynt gan Lywodraeth Cymru, o Flwyddyn 11 ymlaen.

**Awdurdod Lleol:** Awdurdod lleol (y Cyngor); yr Awdurdod Lleol yw'r Cyngor Sir.

### B

**BESD:** Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a/neu Gymdeithasol. Gelwir weithiau yn **SEBD**.

### C

**CAMHS (Child and Adolescent Mental Health Service):** Gwasanaeth i ddarparu help, cefnogaeth a gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl.

## C

**Cefnogwr Annibynnol ar gyfer Rhieni:** Mae Cefnogwr Annibynnol ar gyfer Rhieni yn rhywun a all gefnogi rhieni, gan annog cyfranogiad rhieni a helpu'r rhiant i ddeall y system ADY. Mae 'annibynnol' yn golygu rhywun sy'n annibynnol o'r broses benderfynu sy'n pennu'r math a lefel y gefnogaeth ar gyfer plentyn gydag ADY. Yn aml bydd Cefnogwyr yn dod o fudiad gwirfoddol, Gwasanaeth partneriaeth Rhieni, rhiant arall neu gyfaill.

**Cod:** Mae cod yn rhoi rheolau a chyngor i helpu awdurdodau lleol ac eraill i wneud yr hyn y mae'r gyfraith yn ddweud wrthynt am ei wneud.

**Cod ADY:** Canllaw ar gyfer rhieni, ysgolion ac awdurdodau lleol am yr help y gallant ei roi i blant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'n rhaid i ysgolion, awdurdodau lleol a Gwasanaethau Plant roi ystyriaeth i'r Cod (h.y. mae'n rhaid iddynt beidio ei anwybyddu pan maent yn gweithio gyda phlentyn gydag ADY).

**Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021:** Daeth y cod hwn i rym ar 1 Medi 2021 yn dilyn Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (Gorchymyn Diwrnod Penodedig (Cymru) 2021). Ar gael yn: **llyw.cymru/cod-anghenion-dysgu-ychwanegol**

**Cyfaill achos:** Cyfaill achos yw rhywun a all helpu plentyn neu berson ifanc i ddeall eu cynllun a chymryd penderfyniadau drostynt, fel penderfynu apelio. Maent eisoes yn adnabod y plentyn neu berson ifanc ac nid ydynt yn eiriolydd.

**Cyfnod Sylfaen:** Mae hyn yn dechrau pan gaiff plant eu geni ac yn parhau tan ddiwedd Blwyddyn 2.

**Cynhwysiant:** Mae hyn am addysgu plant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn ysgolion prif ffrwd (lleol) lle bynnag sy'n bosibl.

**Cynorthwyydd Addysgu / Cynorthwyydd Cymorth Dysgu / Cynorthwyydd Cyffredinol:** Person a gyflogir yn yr ysgol i gefnogi dysgu plant dan gyfarwyddyd athro/athrawes dosbarth.

**Cynllun Datblygu Unigol:** Cynllun Datblygu Unigol yw'r enw ar gyfer y cynllun newydd fydd gan blant a phobl ifanc gydag ADY.

**Cynllun Pontio:** Cynllun a luniwyd yn dilyn Adolygiad Blynyddol Blwyddyn 9 ac a gaiff ei ddiweddaru mewn adolygiadau blynyddol dilynol. Diben y cynllun yw tynnu gwybodaeth ynghyd gan ystod o unigolion o fewn a thu hwnt i'r ysgol er mwyn cynllunio'n gydlynus ar gyfer pontio'r person ifanc i fywyd fel oedolyn.

## D

**Datrys Anghytundeb:** Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ddarparu trefniadau i helpu atal neu ddatrys anghytundeb rhwng rhieni y mae gan eu plant ADY a'r awdurdod lleol neu ysgol. Nid yw defnyddio'r gwasanaeth hwn yn effeithio ar hawl rhiant i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru.

**Dechrau'n Deg:** Rhaglen gan Lywodraeth Cymru ar gyfer teuluoedd gyda phlant 0-3 oed.

**Deddf Cydraddoldeb:** Daeth y Ddeddf Cydraddoldeb i rym ym mis Hydref 2010. Mae'n disodli deddfwriaeth flaenorol (tebyg i'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1978 a'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995) ac yn sicrhau cysondeb yn yr hyn sydd angen ei wneud i sicrhau fod eich gweithle yn amgylchedd teg ac i gydymffurfio gyda'r gyfraith.

## E

**Eiriolaeth:** Eiriolaeth yw pan fo person yn siarad ar eich rhan.

**Eiriolydd:** Eiriolydd yw person sy'n siarad ar eich rhan.

**EOTAS:** Addysg Heblaw yn yr Ysgol

## Ff

**Ffisiotherapydd:** Therapydd sy'n cefnogi plant gydag anghenion corfforol a meddygol, yn helpu gydag ymarferion ac yn rhoi cyngor i rieni ac ysgolion.

## G

**Galluedd:** Yw medru gwneud penderfyniad neu ddewis neilltuol.

**Gwasanaeth Gyrfaoedd:** Gwasanaeth ar gyfer pob person ifanc 13-19 oed i'w helpu i baratoi ar gyfer pontio i waith a bywyd fel oedolyn.

**Gweithiwr Portage:** Gweithiwr blynyddoedd cynnar profiadol sy'n gweithio gyda phlant 0-3 oed gydag anghenion ychwanegol sylweddol a'u rhieni. Maent yn gweithio yn y cartref ac yn darparu rhaglenni i wella datblygiad plant ifanc, gan gadw mewn cysylltiad gyda gweithwyr proffesiynol eaill.

**Gwasanaethau Partneriaeth Rhieni:** Darparu gwybodaeth a chefnogaeth i rieni plant gydag ADY i helpu rhieni fod â rôl mwy gwybodus yn addysg eu plant.

**Gweithiwr Proffesiynol Arweiniol:** Un person sy'n gyfrifol am helpu'r plentyn a'r teulu drwy'r system a gwneud yn siwr eu bod yn cael y gwasanaethau cywir ar yr adeg gywir.

## L

**LSA:** Cynorthwyydd Cefnogi Dysgu

## Ll

**Lleoliad Blynyddoedd Cynnar:** Mae'r lleoliadau hyn i gyd yn ddosbarthiadau meithrin ac ysgolion meithrin addysgol cyn-ysgol, meithrinfeydd dydd a cyn-ysgol.

## M

**Map Darpariaeth:** Mae'r lleoliadau hyn i gyd yn ddosbarthiadau meithrin ac ysgolion meithrin addysgol cyn-ysgol, meithrinfeydd dydd a cyn-ysgol.

**Mentor neu Mentor Dysgu:** Oedolyn neu ddisgybl hyn sy'n gysylltiedig gyda phlentyn i ddarparu cymorth ar draws nifer o feysydd tebyg i ddysgu neu ymddygiad.

**Monitro:** Asesiad parhaus ar waith, cynnydd, gwariant neu gyflawniad.

## N

**Nam ar y Clyw:** Mae disgyblion gyda nam ar y clyw yn amrywio o golli clyw i rai sy'n hollol fyddar.

**Nam ar y Golwg:** Amrywiaeth o anawsterau o olwg rhannol hyd at ddallineb.

## P

**Pediatregydd:** Meddyg sy'n arbenigo mewn anghenion babanod a phlant.

**Plant sy'n Derbyn Gofal:** Y rhai a all fod mewn gofal ac efallai mewn cartref maeth.

**PMLD:** Mae hyn yn golygu Anawsterau Dysgu Dybryd a Lluosog; yn ogystal ag anawsterau dysgu difrifol iawn, mae gan ddisgyblion anawsterau sylweddol eraill tebyg i anableddau corfforol, nam ar y synhwyrau neu gyflwr meddygol difrifol. Mae disgyblion angen lefel uchel o gymorth gan oedolion ar gyfer eu hanghenion dysgu yn ogystl ag ar gyfer eu gofal personol.

**PSE:** Addysg Gymdeithasol a Phersonol.

## S

**SEAL:** Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol Dysgu.

**Sefydliad Addysg Bellach:** Coleg neu ddarparydd sy'n cynnig dysgu seiliedig ar waith neu ddysgu i oedolion a'r gymuned ar gyfer rhai dros 16 oed.

**Seiciatregydd:** Meddyg sy'n helpu pobl sydd ag anawsterau gyda'r ffordd y maent yn teimlo ac ymddwyn. Mae seiciatryddion plant yn arbenigo mewn helpu plant.

**Seicolegydd Addysgol:** Maent yn cynnig cyngor a chymorth arbenigol i ddisgyblion, ysgolion, rhieni ac asiantaethau eraill. Gallant gynnal asesiadau a chyfrannu at broses Cynllun Datblygu Unigol a'r broses cynllunio pontio.

## S

**SI:** Nam ar y synhwyrau.

**SLT:** Therapydd Lleferydd ac Iaith fydd yn helpu plant sydd ag anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu.

**SPLD:** Anawsterau Dysgu Penodol mewn maes neilltuol i'r cwricwlwm.

**Swyddog Adolygu Annibynnol:** Rhywun sy'n gwneud yn siwr y caiff plant sy'n derbyn gofal eu trin yn deg.

## T

**Teuluoedd yn Gyntaf:** Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu systemau a chefnogaeth aml-asiantaeth ar gyfer teuluoedd.

**Tîm o Amgylch y Teulu:** Ffordd o weithio sy'n dod ag ystod eang o weithwyr proffesiynol ynghyd i weithio gyda theulu er mwyn eu helpu i drin yr holl heriau sy'n eu hwynebu.

**Tribiwnlys:** Tribiwnlys yw grwp arbennig o bobl yn gyfrifol am ddelio gydag anghytundeb.

## Th

**Therapydd Galwedigaethol:** Gweithiwr proffesiynol a gyflogir gan y Bwrdd Iechyd i weithio gyda'r plentyn, rhieni ac athrawon. Mae Therapyddion Galwedigaethol yn defnyddio technegau therapiwtig (cynghori ar offer ac addasiadau amgylcheddol lle'n briodol) i wella gallu plentyn i gyrchu'r cwricwlwm corfforol a dysgu.

## Y

**Ymwelydd Iechyd:** Nyrs gymwysedig a gyflogir gan y Gwasanaeth Iechyd sy'n rhoi cyngor ar iechyd cyffredinol plant, problemau iechyd neilltuol ac sydd â chyfrifoldeb penodol am fonitro cynnydd plentyn a chynghori rhieni pan fo angen.

**Ysgol a Gynhelir:** Ysgol y wladwriaeth sy'n cynnwys ysgolion cymunedol, sefydliadol a gwirfoddol, yn ogystal ag ysgolion arbennig a sefydliadol cymunedol.

**Ysgol Arbennig:** Ysgol a drefnwyd yn benodol i ddarparu addysg arbneigol ar gyfer disgyblion gydag ADY mwy sylweddol.

**Ysgol Brif Ffrwd:** Ysgol a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol nad yw'n ysgol arbennig. Ysgolion prif ffrwd yw mwyafrif yr ysgolion ac maent yn cynnwys ysgolion babanod, iau, cynradd ac uwchradd.

# 7. Adnoddau

## Plant yng Nghymru

**Plant yng Nghymru yw'r corff ymbarel cenedlaethol ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru.**

Mae yn gorff aelodau a daw ei aelodau o'r sectorau gwirfoddol, statudol a phroffesiynol. Mae yn gweitho gyda, a dros, ei aelodau i hyrwyddo eu buddiannau a diwallu eu hanghenion. Gyda'i gilydd mae'r aelodaut yn:

> Cyfrannu at wneud gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn realaeth yng Nghymru.

> Ymladd dros wasanaethau ansawdd cynaliadwy a chwarae teg i bob plentyn a pherson ifanc, gan sicrhau sylw a thriniaeth arbennig ar gyfer plant mewn angen a'r rhai sydd ar y cyrion.

> Sicrhau fod gan blant a phobl ifanc lais.

**Gwefan:** www.plantyngnghymru.org.uk
**Ffôn:** 02920 342 434
**E-bost:** info@childreninwales.org.uk
**X:** @ChildreninWales

## Fforwm Cymru Gyfan

**Sefydlwyd Fforwm Cymru Gyfan gan grwp o rieni a gofalwyr ledled Cymru sydd eisiau cael 'llais a rheolaeth' dros y ffordd y caiff gwasanaethau ar gyfer eu plant gydag anawsterau dysgu eu cynllunio a'u cyflwyno.**

Strategaeth greiddiol y Fforwm yw dod â llais a chydnabyddiaeth genedlaethol i rieni a gofalwyr plant ac oedolion sy'n byw gydag anableddau dysgu yng Nghymru.

> **Rydym yn eiriol dros hawliau gofalwyr teulu i gael rhan gyfartal mewn cynllunio gwasanaethau a datblygu polisi** galluogi a chefnogi grwpiau gofalwyr ac unigolion i gael eu cynnwys yn llawn yn eu cymunedau a bod yn ganolog i brosesau cynllunio.

> **Rydym yn tynnu sylw ac yn ymgyrchu ar faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar rieni, gofalwyr a'u perthnasau** cydweithio i sicrhau y caiff y materion sy'n wynebu gofalwyr teulu yn uniongyrchol eu clywed ac y cânt eu hystyried yn gywir gan y gymuned ehangach drwy gydweithio ac ymgysylltu llwyr.

> **Gweithio mewn partneriaeth i adnabod a datblygu datrysiadau blaengar i wella bywydau rhieni a gofalwyr a'u perthnasau** gweithio gyda sefydliadau partner ar lefel leol a chenedlaethol drwy rannu adnoddau a gwybodaeth ar y cyd i wella a llunio'r gwasanaethau hynny sy'n sicrhau bywydau da.

Cysylltwch gyda ni os oes gennych unrhyw ymholiadau neu eisiau gwybod mwy am ein prosiectau cyfredol.

**Gwefan:** www.allwalesforum.org.uk
**Ffôn:** 02920 811 120 **X:** @AllWalesForum **Facebook:** @AllWalesForum

## Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

**Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn rhoi cyngor a gwybodaeth am ddim ym mhob awdurdod lleol ar ystod eang o opsiynau a gweithgareddau gofal plant ar gyfer plant 0-19 oed (hyd at 25 oed ar gyfer pobl ifanc gydag ADY), eu teuluoedd a'u gofalwyr.**

Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ar feithrinfeydd, gofalwyr plant, clybiau allan o'r ysgol, grwpiau chwarae a grwpiau rhiant a phlentyn. Rydym hefyd yn rhoi help a chyngor ar dalu am ofal plant a gweithio mewn gofal plant.

Mae Plant yng Nghymru yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i ddarparu gwybodaeth ac adnoddau i helpu gyda'u gwaith. I gael manylion eich cyswllt lleol ewch i **www.fis.wales/home** a dilyn y promptiau ar y sgrîn. Mae'n wasanaeth gwybodaeth a chyngor un stop ar gyfer rhieni, gofalwyr a phobl sy'n gweithio gyda theuluoedd yn yr awdurdod lleol am:

> Gofal plant cofrestredig yn cynnwys gofalwyr plant, meithrinfeydd dydd, creches, Cylchoedd Meithrin a grwpiau chwarae.
> Cynlluniau gofal gwyliau a chynlluniau chwarae mynediad agored. Gofal plant heb gofrestru yn cynnwys gwarchodwyr plant, nanis ac au pairs. Grwpiau rhiant a phlentyn.
> Gweithgareddau chwarae, chwaraeon a hamdden. Help gyda chostau gofal plant. Gweithio gyda phlant
> Addysg feithrin am ddim
> Gwasanaethau ieuenctid
> Gwasanaethau iechyd a llesiant
> Gwasanaethau yn hybu'r Gymraegd
> Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd

Mae gan eich awdurdod lleol Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd fydd yn rhoi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad am ADY.

**Ffôn:** 08000 32 33 39 (rhadffon)
**E-bost:** fis@blaenau-gwent.gov.uk

## SNAP Cymru

**Mae SNAP Cymru yn elusen plant Cymru-gyfan sy'n gweithio gyda theuluoedd, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol ar faterion yn ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau. Mae'n wasanaeth eiriol dros rieni/gofalwyr.**

Mae Gwasanaeth Annibynnol Partneriaeth Rhieni SNAP Cymru am ddim i deuluoedd ac mae'n cynnig gwybodaeth ddiduedd a chywir, cyngor a chefnogaeth drwy ein Cynllun Cefnogaeth i Rieni annibynnol.

**Mae ein timau o staff a gwirfoddolwyr wedi eu hyfforddi ac yn helpu:**

> Teuluoedd i wneud penderfyniadau gwybodus am ysgolion a lleoliadau a darpariaeth addysgol arall gan iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill.
> Teuluoedd i weithio mewn partneriaeth a chynnal perthynas waith dda gyda gweithwyr proffesiynol perthnasol.
> Ysgolion wrth barhau i ddatblygu ymarfer gweithio da gyda rhieni/gofalwyr.
> Teuluoedd yn chwarae rôl weithgar a gwerthfawr yn addysg a datblygiad eu plant gan roi dewis i deuluoedd.

**Mae timau staff a gwirfoddolwyr SNAP yn cynnig:**

> Gwybodaeth, cyngor a chymorth cyfrinachol a chywir.
> Clust i wrando, cyfle i deuluoedd drafod pethau.
> Help i gael mynediad i amrywiaeth o wasanaethau cymorth a chyngor arbenigol.
> Help ymarferol i drin llythyrau, llenwi ffurflenni a deall adroddiadau proffesiynol.

Defnyddiwch y ddolen hon i gael mynediad i wybodaeth ar eiriolaeth annibynnol ar gyfer pobl ifanc. **www.snapcymru.org/wp-contentlu0ploads/2015/11/Advocacy, pdf**

**Gwefan:** www.snapcymru.org
**Ffôn:** 0808 801 0608
**X:** @SNAPCymru
**Facebook:** @SNAPCymru

## Gwybodaeth Ychwanegol Ar-lein

**Mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi creu ystod o adnoddau a chanllawiau ar Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer teuluoedd, plant a phobl ifanc. Caiff rhai ohonynt eu rhestru isod:**

Mae gwybodaeth bellach ar ADY ar gael ar wefan Blaenau Gwent yn: **www.blaenau-gwent.gov.ukALN**

### Cod ADY 2021

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf ewch i wefan Llywodraeth Cymru. **www.llyw.cymru/addysg-sgiliau**

### Dalen Ffeithiau ADY

Ar sut y bydd y Ddeddf ADY yn effeithio ar blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr. Ar gael yn **www.llyw.cymru/anghenion-dysgu-ychwanegol-ady-dalen-ffeithiau-plant-pobl-ifanc-rhieni-a-gofalwyr**

### Adolygiadau blynyddol a chyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Rhoi canllawiau ar yr hyn i'w ddisgwyl. Ar gael ar-lein **www.llyw.cymru/adolygiadau-canllawiau-canolbwyntio-ar-unigolion-ar-gyfer-teuluoedd**

### Esboniad rhwydd ei ddarllen o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

Canllawiau yn helpu plant a phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol i ddysgu – Plant a phobl ifanc gydag ADY. Ar gael (ar-lein) **www.llyw.cymru/deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-a-tribiwnlys-addysg**

### Llyfryn adnoddau canolbwyntio ar yr unigolyn

Rhoi templed i deulu ei ddefnyddio wrth baratoi ar gyfer adolygiad yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Ar gael ar-lein: **https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/adolygiadau-canolbwyntio-ar-unigolion-ar-gyfer-teuluoedd.pdf**

### Fideo ac arweiniad ar adolygiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Ar gael (ar-lein) **https://youtu.be/bkwBSF0nxiY**

### Ysgol gynradd ar gyfer plant 7 i 11 oed: canllawiau i rieni a gofalwyr

Ar gael (ar-lein) **www.llyw.cymru/plant-ysgol-gynradd-7-11-oed-canllawiau-rhieni-a-gofalwyr**

### Fideo digwyddiadau Cod ADY

Trosolwg o'r drafft ymgynghoriad ar y cod ADY. Ar gael (ar-lein) **www.llyw.cymru/trosolwg-drafft-ymgynghoriad-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Swyddfeydd Cyffredinol
Heol Gwaith Dur
Glynebwy
NP23 6DN

**Ffôn:** 01495 311556
**Gwefan:** www.blaenau-gwent.gov.uk